



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)



# Polisi Cynllunio Cymru



Pennod 2 Cynlluniau Datblygu Lleol



## 2.1 System dan arweiniad Cynllun<sup>1</sup>

2.1.1 Nod y system gynllunio yw gwneud darpariaeth gynlluniedig ar gyfer cyflenwad digonol a pharhaus o dir i ateb anghenion cymdeithas mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cynaliadwyedd (gweler adran 4.3).

2.1.2 Mae Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) cyfoes yn rhan sylfaenol o system gynllunio dan arweiniad cynllun ac maent yn gosod y cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau rhesymegol a chyson yn unol â pholisiâu cenedlaethol. Rhaid penderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun a fabwysiadwyd, oni fydd ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall (Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004). Dylai'r CDLl ddangos sut y mae disgwyl i leoedd newid o ran defnydd y tir i wneud lle ar gyfer anghenion datblygu dros gyfnod y cynllun, er mwyn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynglŷn â'r math o ddatblygiad a gaiff ei ganiatáu mewn lleoliad neilltuol.

### Darpariaethau Statudol


2.1.3 Mae paratoi CDLl yn ddyletswydd statudol ar yr awdurdod cynllunio lleol (Adran 62 o Ddeddf 2004) a disgwylir i'r awdurdod gyflawni'r swyddogaeth gyda'r amcan o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy (Adran 39 o Ddeddf 2004). Dylai Awdurdodau roi blaenoriaeth uchel i baratoi'r CDLl, ei fonitro a'i ddiwygio er mwyn sicrhau bod cynlluniau cyfredol yn eu lle.

2.1.4 Yn ychwanegol at Ddeddf 2004, mae'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi CDLl wedi eu disgrifio yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad defnyddiol ar Gynlluniau Datblygu Lleol.

2.1.5 Mae'n rhaid cyfarfod â'r gofynion statudol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)<sup>2</sup>, Arfarniad Cynaliadwyedd<sup>3</sup> ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)<sup>4</sup>.

2.1.6 Y Cynllun Integredig Sengl (CIS) (sy'n cyfarfod â'r gofyn am strategaethau Cymunedol dan Ran 2: Adranau: 37-46 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009) ddylai ddarparu'r fframwaith strategol cyffredinol ar gyfer holl gynlluniau a strategaethau eraill yr awdurdod lleol, gan gynnwys y CDLl<sup>5</sup>. Mae angen i'r CIS a'r CDLl ategu'r naill a'r llall gyda'r CDLl yn mynegi, mewn termau cynllunio defnydd tir priodol, yr elfennau hynny o'r CIS sy'n berthnasol i ddatblygu a defnyddio tir, cyn belled â bod elfennau'r CIS yn cydymffurfio â pholisi a dyletswyddau cenedlaethol a rhyngwladol. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 caiff Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol; bydd pob un yn paratoi Cynllun Llesiant Lleol i gymryd lle'r CIS (gweler Pennod 4 hefyd).

2.1.7 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y berthynas rhwng eu CDLl a **strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol sydd wedi cael eu mabwysiadu** ac anogir hwy i weithio gyda'i gilydd er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer materion trawsffiniol a strategol; mae'r profion cadernid yn golygu bod rhaid i'r cynllun fod yn gydnaws â chynlluniau a strategaethau



awdurdodau cyfagos, h.y. rhaid iddo 'ffitio' (gweler 2.5 isod). Gall rhannu sgiliau, gwybodaeth ac arfer gorau leihau dyblygu dianghenraid a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol ac effeithlon.

2.1.8 Dylai paratoad y cynllun fod yn gynhwysol a chydabod gofynion pob sector o'r gymdeithas, gan gynnwys cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol yn Neddf **Cysylltiadau Hiliol** (Diwygio) 2000 i hybu cydraddoldeb hiliol ac â'r Ddeddf **Gwahaniaethu ar Sail Anabledd** 1995, sy'n gosod dyletswydd ar bawb sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd i beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl drwy ddarparu gwasanaeth o safon is.


2.1.9 Cyflwynodd Mesur y **Gymraeg** (Cymru) 2011 ddyletswydd ar sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau cynllunio lleol, i gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Safonau yn rhoi eglurder ynghylch y gwasanaethau y dylid eu darparu yn Gymraeg ac maent yn gofyn i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd resymol a chymesur. Mae llawer o'r Safonau yn debygol o fod yn berthnasol i bob cam yn y broses o baratoi ac adolygu CDLlau ond yn neilltuo i'r modd y mae awdurdodau cynllunio lleol yn cyhoeddi cynigion, yn ymgynghori â'r cyhoedd, yn cyfathrebu â'r rheiny sy'n cyflwyno achos ac yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau.

## 2.2 Ffurf a Chynnwys y Cynllun<sup>6</sup>

2.2.1 Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw penderfynu sut y dylid teilwra ei Gynllun Datblygu Lleol i ateb anghenion yr ardal ar sail tystiolaeth gadarn. Dylai fod yn gynllun cryno wedi ei fynegi mewn iaith glir gan osgoi jargon. Ni ddylai fod yn hir, yn gymhleth, yn niwlog nac yn or-fanwl nac ychwaith yn gasgliad o bolisiau i ymdrin â phob math o bosibiliadau, a dylai osgoi ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol.

2.2.2 Dylai dyddiad sylfaenol y CDLl fod yn glir a dylai cyfnod gweithredu'r cynllun fod yn 10 mlynedd o leiaf o'r amser y caiff ei fabwysiadu. Dylai ganolbwyntio ar y **materion** allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy yn ardal y cynllun. Dylai gynnwys **gweledigaeth a strategaeth** dymor hir, gryno, sy'n dangos yn eglur beth yw prif **amcanion** y cynllun ynghyd â chyfeiriad bras y newid. At hynny dylai ddangos y lleoliadau gofodol allweddol ar gyfer datblygu a'r seilwaith angenrheidiol i gyflawni hynny. Dylai ganolbwyntio'n glir ar gynllunio ar gyfer lleoedd. Dylai'r strategaeth fod wedi ei darlunio'n fras ar ffurf diagram ar **ddiagram allweddol**. Dylai fod yn uchelgeisiol ond yn realistig a dylai ddarparu arweiniad tryloyw i'r hyn y bwriedir ei gyflawni drwy weithredu'r cynllun. Mae **dichonoldeb cyflawni a hyfywedd ariannol** yn ystyriaethau allweddol a rhaid ystyried costau megis seilwaith a thai fforddiadwy wrth baratoi'r cynllun (gweler adran 3.7 ynghylch rhwymedigaethau cynllunio a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol)<sup>7</sup>. Dylai'r strategaeth fod wedi ei fframio yn y fath fodd fel y bydd yn bosibl ei datblygu gan wneud lle i ddiwygiadau diweddarach.

2.2.3 Dylai'r cynllun gynnwys **polisiau**<sup>8</sup> i sicrhau canlyniadau, cefnogi a nodi dyraniadau safleoedd/ardaloedd datblygu, diffinio lle mae cyfyngiadau'n berthnasol ac egluro'r meini prawf cyffredinol y bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu a defnyddio tir ac adeiladau yn cael eu hystyried yn eu herbyn, yn ddelfrydol drwy ddefnyddio polisiau cyffredinol yn hytrach nag ailadrodd. Dylai'r polisiau fod ar wahân ond yn cael eu cefnogi gan gyfiawnhad rhesymegol cryno.



2.2.4 Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym *Mholisi Cynllunio Cymru* fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio.

2.2.5 Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Ni ddylai'r polisiâu gynnwys datganiadau o fwriad na disgrifiadau o drefniadau gweinyddol. Ni ddylai cynlluniau geisio dynodi ardaloedd lle bydd cyfleusterau neu grantiau arbennig ar gael, neu lle bydd trefniadau ymgynghori arbennig yn bodoli, er y gall fod yn briodol cyfeirio atynt yn y testun.

2.2.6 Rhaid i '**fap cynigion**' ar sail Arolwg Ordnans daearyddol amlinellu'r polisiâu a'r cynigion hynny sydd â chydran ofodol gan gynnwys yr holl ddyraniadau; er nad oes angen dangos amlinelliadau gofodol lle byddant wedi cael eu penderfynu drwy fecanweithiau eraill (e.e. mewn Mapiau Cyngor Datblygu TAN15<sup>o</sup>). Os cyfyd croesddweud rhwng prif gorff y CDLl a'r map cynigion, darpariaethau'r cyntaf fydd bwysicaf.


2.2.7 Gellir cynnwys arweiniad manwl pellach i ategu polisi'r cynllun, ond nid polisi newydd, mewn **canllaw cynllunio atodol** ar ffurf, er enghraifft, briffiau datblygu/dylunio neu uwch gynlluniau (gweler adran 2.4).

2.2.8 Yng ngoleuni amgylchiadau lleol, yr awdurdodau unigol sydd i ystyried yr angen i ddatblygiad ddigwydd **fesul cam** dros gyfnod y CDLl. Efallai y gellir cyfiawnhau cyflwyniad graddol ar sail ystyriaethau yn ymwneud â seilwaith ffisegol neu gymdeithasol, neu ddigonolrwydd gwasanaethau eraill, a all ddangos na ellir rhyddhau safle neilltuol i'w ddatblygu tan ryw gam penodol yng nghyfnod y cynllun. Pan fydd datblygiad fesul cam wedi ei gynnwys mewn CDLl, dylai fod ar ffurf disgrifiad bras o'r cyfnod o amser a ragwelir ar gyfer rhyddhau'r prif ardaloedd datblygu neu safleoedd a nodwyd, yn hytrach na chyfyngiad rhifiadol mympwyol ar ganiatâd neu drefn fanwl o ryddhau safleoedd mewn cyfnodau arbennig.

2.2.9 Dylai cynigion ganiatáu gradd resymol o ddewis a **hyblygrwydd**, er enghraifft, er mwyn sicrhau marchnad dai effeithlon ac effeithiol. Bydd angen hyblygrwydd o ran ymddangosiad safleoedd sydd heb eu nodi, h.y. safleoedd sydd heb eu dyrannu yn y CDLl ar gyfer y math arbennig o ddatblygiad ac y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel hap-safleoedd. Dylai polisiâu datblygu fesul cam gydnabod yr angen posibl i addasu amseriadau rhyddhau tir os bydd mwy neu lai o safleoedd o'r fath yn dod i'r amlwg nag a ragdybir yn y CDLl. Pan fydd tybiaethau wedi eu gwneud yn y CDLl ynghylch argaeledd hap-safleoedd yn y dyfodol, bydd angen gwirio'r tybiaethau drwy fonitro'n rheolaidd y ceisiadau cynllunio a ganiateir.

## 2.3 Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

2.3.1 Mae **datblygiad cynaliadwy** yn gyfrifoldeb yr ydym yn ei rannu. Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am osod y fframwaith ar gyfer datblygu cymunedau cynaliadwy yn eu hardaloedd,





gan integreiddio gwasanaethau a gofynion seilwaith ar lefel leol a cheisio cyflawni datblygiad cynaliadwy drwy nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At hynny, mae Adran 39 o Ddeddf 2004 yn gofyn i awdurdodau baratoi CDLlau gyda'r amcan o gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy (Gweler Pennod 4; a ffigur 4.2 ynghlŷn â gwneud cynllun).

2.3.2 Bydd Arfarniad Cynaliadwyedd ac Aseiad Amgylcheddol Strategol yn chwarae rhan bwysig i ddangos bod y CDL yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy.


2.3.3 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gydymffurfio â Chyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC<sup>10</sup> sy'n gofyn am aseiad amgylcheddol ffurfiol wrth gynhyrchu rhai cynlluniau a rhaglenni sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd (a adwaenir yn gyffredin fel Cyfarwyddeb yr **Aseiad Amgylcheddol Strategol** (AAS)). Cafodd y Gyfarwyddeb ei hymgorffori i mewn i gyfraith Cymru yn rhinwedd Rheoliadau Aseidiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau'r AAS). Mae'n berthnasol i bob CDL ac efallai y bydd hefyd yn berthnasol i rai mathau arbennig o ganllaw cynllunio atodol (CCA). **Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gydymffurfio â Rheoliadau'r AAS yn ogystal â Rheoliadau'r CDL wrth baratoi CDLlau.**

2.3.4 Rhaid i awdurdod cynllunio lleol hefyd gynnal arfarniad cynaliadwyedd o'r CDL a pharatoi adroddiad am y canfyddiadau (Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd) fel rhan annatod o'r broses o baratoi cynllun (Adran 62(6) o Ddeddf 2004). Gellir cynnal gwaith arfarnu cynaliadwyedd a gwaith AAS ar wahân ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ei gyfuno a'i integreiddio'n llawn i'r broses o lunio'r cynllun cyn belled â bod yr arfarniad cynaliadwyedd yn ateb gofynion Rheoliadau'r AAS. **Dylid cymryd bod unrhyw gyfeiriadau at arfarnu cynaliadwyedd ym mholisi ac arweiniad CDLlau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio hefyd at yr AAS.** Nid yw arfarniad cynaliadwyedd y CDL yn dileu'r angen am **Aseiad Effaith Amgylcheddol** ffurfiol ar gyfer cynigion datblygu unigol lle mae arfarniad o'r fath yn ofynnol drwy ddeddfwriaeth<sup>11</sup> (gweler adran 3.3).

2.3.5 Diben arfarniad cynaliadwyedd yw sicrhau bod proses systematig a chyson yn cael ei dilyn wrth baratoi (ac adolygu) cynllun, sy'n nodi ac yn adrodd am y graddau y bydd gweithrediad y cynllun yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gellir diffinio datblygu cynaliadwy drwyddynt (gan gynnwys y Gymraeg), ac yn nodi cyfleoedd cysylltiedig ar gyfer gwella perfformiad y cynllun. (Gweler hefyd yr arweiniad ynghylch y Gymraeg yn TAN 20<sup>12</sup>).

2.3.6 Er mwyn bod yn fwyaf effeithiol o ran sicrhau bod y penderfyniadau ar bob cam yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy (gweler adran 4.2), dylai arfarniad cynaliadwyedd fod wedi ei integreiddio'n llawn i'r broses o lunio a monitro'r cynllun. Dylai'r awdurdod nodi casgliad clir o amcanion integredig ar gyfer gwerthuso polisiâu (lle bo'n briodol), cynigion a lleoliadau gwahanol ar gyfer datblygu fel ei bod yn eglur oddi wrth y broses sut a pham y cafodd dewisiadau neilltuol eu dethol; mae proses yr AAS yn ei gwneud yn ofynnol ystyried dewisiadau rhesymol eraill.

2.3.7 Dylai arfarniad integredig ddatgelu amrediad llawn yr ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o bwys.




- Bydd cynlluniau'n effeithiol os byddant yn rhoi sylw i ystyriaethau **economaidd** ac os byddant yn realistig ac ymarferol. Dylai CDLLau gynnwys disgrifiad, mewn termau bras, o'r tybiaethau a wnaed am yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael i weithredu'r polisiau (gan gynnwys cynigion) a ffurfiwyd. Dylent adael lle i ddatblygwyr ac eraill wneud dewisiadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. Dylai CDLLau (a'r penderfyniadau rheoli datblygu fydd wedi eu seilio arnynt yn ddiweddarach) gymryd polisiau economaidd a datblygu Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol i ystyriaeth.
- Dylai CDLLau (a'r penderfyniadau rheoli datblygu diweddarach) gymryd amgylchiadau **cymdeithasol** sy'n gysylltiedig â materion defnydd tir i ystyriaeth, megis y berthynas rhwng polisiau a chynigion cynllunio ac anghenion a phroblemau cymdeithasol, gan gynnwys effaith debygol polisiau a chynigion ar y gymuned gyfan. Bydd ystyriaethau cymdeithasol yn neilltuol o berthnasol wrth asesu'r angen am dai fforddiadwy ac am dai i bobl ag anghenion arbennig, wrth baratoi mesurau ar gyfer atal troseddu, a darpariaeth ar gyfer chwaraeon ac adloniant. Dylid ystyried effeithiau gwahanol a gaiff cynlluniau ar iechyd a'i benderfynyddion. Dylai CDLLau ddarparu tir ar gyfer ysgolion, addysg bellach ac uwch, addoldai, cyfleusterau adloniant a chyfleusterau cymunedol eraill.
- Bydd goblygiadau **amgylcheddol** i'r rhan fwyaf o bolisiau a chynigion CDLLau a gall y rhain fod yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol. Mae angen ystyried effeithiau amgylcheddol cynllun, gan gynnwys dewisiadau gwahanol, realistig, mor gynnar ag y bo modd yn y broses o baratoi'r cynllun.

2.3.8 Wrth integreiddio arfarniad cynaliadwyedd i'w proses o lunio'r cynllun, dylai Awdurdodau ddogfennu a gallu dangos mewn Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd sut y maent, ar bob cam, yn ateb gofynion arfarniad cynaliadwyedd ac yn enwedig AAS; dylid cofnodi'n glir a chyfeirio at yr agweddau hynny sydd eu hangen yn benodol i ateb Rheoliadau'r AAS.

2.3.9 Fel rhan o'r gwaith paratoadol o ddatblygu sylfaen wybodaeth a thystiolaeth y CDLL, dylai awdurdodau cynllunio lleol ymgymryd â cham **cwmpasu'r** broses AAS ac wedyn ofyn am farn y Cyrff Ymgynghori statudol (dan reoliadau AAS) a rhanddeiliaid (h.y. partneriaid lleol eraill) gan nodi'r prif faterion sydd i gael eu hadlewyrchu yn amcanion y cynllun integredig a lefel y manylder sy'n ofynnol.

2.3.10 Yn ystod y cyfnod cyfranogi cyn adneuo (Rheoliad CDLLau 14) rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod gofynion arfarnu cynaliadwyedd wedi eu hymgorffori i'r amcanion a ddefnyddir i asesu'r dewisiadau strategol sy'n arwain at nodi a datblygu'r strategaeth a ffefrir. Dylent weithio gyda'r cyrff ymgynghori a'r rhanddeiliaid a pharatoi adroddiad arfarnu cynaliadwyedd cychwynnol i ddangos sut y cafodd gofynion arfarnu cynaliadwyedd eu bodloni a sut y mae materion arfarnu cynaliadwyedd wedi cyfrannu at y cynllun.

2.3.11 Yn y cyfnod o ymgynghori cyhoeddus cyn adneuo (Rheoliad CDLLau 15), rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori ar yr adroddiad arfarnu cynaliadwyedd cychwynnol ochr yn ochr â dogfen y strategaeth a ffefrir.



2.3.12 Dylid defnyddio'r atebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus cyn adneuo wrth ddatblygu'r cynllun a adneuir ac wrth ddiwygio'r adroddiad arfarnu cynaliadwyedd. Dylai newidiadau manwl diweddar neu newidiadau fydd eu hangen wrth archwilio hefyd fod yn ddarostyngedig i'r un broses o asesiad integredig.


2.3.13 Rhaid cynnal **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** (ARhC)<sup>13</sup> wrth baratoi CDLlau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (Rheoliadau Cynefinoedd). Mae Rhan 6, Pennod 8, o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried effaith eu CDLlau drafft ar Safleoedd Ewropeaidd er mwyn sicrhau bod gofynion Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC<sup>14</sup>) yn cael eu bodloni. Rhaid sgrinio pob CDL fel rhan o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn penderfynu a yw'r cynllun drafft, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad gyda chynlluniau neu brosiectau eraill, yn debyg o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw 'Safleoedd Ewropeaidd'. Os yw effeithiau o'r fath yn debygol, rhaid i'r cynllun gael ei asesu'n briodol. Rhaid ystyried pob safle Ramsar, pob Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) posibl a phob darpar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) fel safleoedd Ewropeaidd at ddibenion Rheoliadau'r Cynefinoedd.

2.3.14 Pan fydd yr asesiad priodol yn canfod effeithiau anffafriol arwyddocaol posibl ar safle Ewropeaidd, rhaid i'r awdurdod cynllunio nodi a oes yna fesurau lliniaru, neu atebion gwahanol i'r cynllun, a fydd yn gwrthweithio'r effeithiau anffafriol hynny. Os nad oes yna atebion gwahanol llai niweidiol ac os cynigir, mewn amgylchiadau eithriadol, fabwysiadu cynllun er gwaethaf y ffaith y gall effeithio'n anffafriol ar safle Ewropeaidd, bydd angen i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ymdrin â hynny ac egluro'r rhesymau hanfodol o fudd cyhoeddus tra phwysig (IROPI) y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn eu hystyried yn ddigonol i orbwyso effeithiau anffafriol posibl ar safle(oedd) Ewropeaidd, a'r mesurau cydbwysu sydd i gael eu darparu. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl na fydd y cynlluniau datblygu'n mynd yn eu blaen i gael eu mabwysiadu ar sail IROPI ond yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol. Ni chaniateir i CDL fynd ymlaen i gael ei fabwysiadu ar sail IROPI pan fydd yr ARhC yn nodi y gall y cynllun datblygu (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad gyda chynlluniau neu brosiectau eraill) achosi risg o beryglu'n ddifrifol nodweddion ecolegol Ardal Cadwraeth Arbennig bosibl.

2.3.15 Dylai'r ARhC fod wedi ei raglennu i ffitio i mewn gyda'r gweithdrefnau llunio cynllun presennol, gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, lle bynnag y bo modd, ond dylid enwi'r arfarniad yn glir a'i gadw ar wahân i'r Arfarniad Cynaliadwyedd/AAS. Ni all CDLlau fynd ymlaen i gael eu mabwysiadu hyd nes y bydd proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi ei chwblhau.

## 24 Canllawiau Cynllunio Atodol

2.4.1 Dylai CDLlau gynnwys digon o bolisiau a chynigion i fod yn sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio ond osgoi gormod o fanylder yr un pryd. Ni ddylent ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol. Mae defnydd dethol o ganllawiau cynllunio atodol (CCA) yn ffordd o osod arweiniad thematig neu arweiniad penodol i safle mwy manwl ynglŷn â'r ffordd y mae polisiau'r CDL i gael eu dehongli a'u cymhwyso mewn amgylchiadau neu ardaloedd neilltuol.





2.4.2 Ni ddylai'r CDLL ddirprwyo'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio i Ganllawiau Cynllunio Atodol, na ddylai ond cynnwys arweiniad a chyngor. Ni ddylai'r CCA ychwaith gael eu defnyddio i osgoi gadael i bolisiau a chynigion fod yn agored i'r cyhoedd graffu arnynt a chael eu harchwilio'n annibynnol yn unol â gweithdrefnau statudol.

2.4.3 Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ond rhaid iddynt fod yn gyson â'r cynllun ac â pholisi cenedlaethol. Rhaid iddynt ddeillio a chael eu croesgyfeirio'n glir at bolisi cyffredinol yn y CDLL, polisiau penodol ar gyfer lleoedd, a/neu – yn achos uwch gynllun neu friff safle – at ddyraniad cynllun. Ni ellir cysylltu CCA â pholisi cenedlaethol yn unig; rhaid bod polisi neu faen prawf polisi fel 'bachyn' o fewn y CDLL, tra bydd y cyfiawnhad rhesymedig yn rhoi eglurder ynghylch y polisi cenedlaethol cysylltiedig. Dylai'r CDLL nodi pa bolisiau y mae'r CCA yn ychwanegu atynt.

2.4.4 Dim ond gan y polisiau sydd yn y cynllun datblygu y mae statws arbennig dan adran 38(6) o Ddeddf 2004 wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ond gellir cymryd CCA i ystyriaeth fel ystyriaeth berthnasol. Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â materion sy'n dod gerbron, bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar CCA sydd wedi ei gymeradwyo, sy'n deillio o'r cynllun datblygu ac yn gyson ag ef, ac sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad.


2.4.5 Bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried swyddogaeth bosibl CCA mewn perthynas â strategaeth a pholisiau'r CDLL. Dylai Canllawiau Cynllunio Atodol allweddol, sydd wedi eu cynhyrchu ochr yn ochr â'r CDLL, fod wedi eu rhestru yn y Cytundeb Cyflawni ynghyd â'r goblygiadau ar gyfer adnoddau, yr amserlen, a monitro.

2.4.6 Dylai awdurdodau cynllunio lleol adolygu effeithiolrwydd a pherthnasedd eu CCA presennol yn gynnar yn y gwaith o baratoi neu ddiwygio'r CDLL. Dylai'r CCA fod yn glir bob amser ynghylch pa bolisiau yn y CDLL y mae yn ychwanegu atynt. Dylid paratoi'r CCA yn unol â'r cynllun sydd gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer cyfranogiad y gymuned; dylai'r ymgynghori gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, busnesau, a phartïon eraill sydd â diddordeb a dylid cadw cofnod o sut y cafodd eu barn ei chymryd i ystyriaeth cyn i'r CCA gael ei gwblhau.

2.4.7 Unwaith y bydd adroddiad Arolygydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi ei dderbyn yn cadarnhau ymagwedd polisi'r CDLL, dylai'r CCA gael ei gymeradwyo'n ffurfiol drwy benderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol fel y gellir rhoi'r pwys dyledus arno.

2.4.8 Er y dylai CCA fod wedi eu teilwra i amgylchiadau lleol, dylai awdurdodau cynllunio lleol edrych i mewn i gyfleoedd ar gyfer cydweithio neu rannu gwaith a sicrhau cysondeb trawsffiniol lle bynnag y bo modd.

2.4.9 Dylid adolygu'r CCA, ynghyd â'r polisi y maent yn atodol iddo, yn rheolaidd yn adroddiad monitro blynyddol y CDLL. Dylai unrhyw ddiwygiad arfaethedig yn y polisiau y mae'r CCA yn seiliedig arnynt gynnwys adolygiad o'r CCA hynny. Efallai y bydd y monitro blynyddol hefyd yn nodi'r angen am CCA newydd.




2.4.10 Er nad yw'r CCA yn statudol ac nad oes angen arfarniad cynaliadwyedd ar ei gyfer, efallai y bydd Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn berthnasol i rai mathau o CCA – er enghraifft, rhai briffiau safle/uwch gynlluniau/cynlluniau lleoedd. Lle bydd sgrinio'n dangos bod AAS yn berthnasol a'i bod yn debygol y bydd yna effeithiau amgylcheddol sylweddol, bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau ei fod wedi cyfarfod â gofynion Rheoliadau'r AAS.

## 2.5 Proses Paratoi'r Cynllun

2.5.1 Gellir rhannu'r broses sydd i gael ei dilyn wrth baratoi cynllun cyfan newydd, o dan y weithdrefn lawn, i 7 cam cylchol a amlinellir isod. Mae cyfranogiad y gymuned a'r gwaith arfarnu cynaliadwyedd integredig yn allweddol i lywio cynnwys y Cynllun<sup>15</sup>. (Mae Rhan 4A o'r Rheoliadau CDLLau yn darparu ar gyfer gweithdrefn adolygu fer ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon pwysig i gyfiawnhau cynnal y weithdrefn adolygu lawn).

- **Sylfaen dystiolaeth** (Adran 61 o Ddeddf 2004) Adolygu, datblygu a chynnal sylfaen dystiolaeth gadarn, gymesur gan gynnwys monitro'r cynllun datblygu presennol; paratoi a chyhoeddi Adroddiad Adolygu yn ymwneud â diwygio'r cynllun. Adroddiad cwmpasu arfarniad cynaliadwyedd. (Cylchol – gweler y pwynt bwled diwethaf).
- **Cytundeb Cyflawni** (Adran 63 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLLau 5 i 10) Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys amserlen paratoi'r cynllun a chynllun cyfranogiad y gymuned.
- **Paratoi Cynllun Cyn Adneuo** (Rheoliadau CDLLau 14 i 16A) Ymgysylltu'n fuan â rhanddeiliaid ac ymgynghori'n ffurfiol ynghylch tystiolaeth (gan gynnwys Adroddiad Adolygu yn ymwneud â diwygiad arfaethedig), materion, amcanion, dewisiadau gwahanol, y strategaeth a ffefrir, dyraniadau, polisiau, arfarniad cynaliadwyedd integredig/adroddiad arfarnu cynaliadwyedd cychwynnol a darpar safleoedd; ystyried ymatebion.
- **Adneuo** (Rheoliadau CDLLau 17 i 19) Ymgynghoriad ffurfiol ar y CDLl a adneuwyd; adroddiad arfarnu cynaliadwyedd; ystyried ymatebion.
- **Cyflwyno ac archwilio** (Adran 64 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLLau 22 a 23) Arolygydd Annibynnol yn ystyried dogfennaeth y CDLl a gyflwynwyd (gan gynnwys sylwadau), yn aml gyda gwrandawriadau a gynhelir yn gyhoeddus, i benderfynu ar gadernid y CDLlau a gyflwynwyd.
- **Adroddiad yr Arolygydd** (Adran 64 o Ddeddf 2004; Rheoliad CDLLau 24) Nodi unrhyw newidiadau gofynnol i'r CDLl a adneuwyd.
- **Mabwysiadu** (Adran 67 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLLau 25, 25A a 39). Mae'r CDLl a fabwysiadwyd, y datganiad mabwysiadu a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd yn cael eu cyhoeddi a'u rhyddhau.
- **Monitro, Adolygu a Diwygio** (Adrannau 69, 70 a 76 o Ddeddf 2004; Rheoliadau CDLLau 3, 25A, a 41) Adroddiadau monitro blynyddol (AMB) ac adolygiadau o'r cynllun gydag adolygiad llawn bob 4 blynedd o leiaf; **adroddiad adolygu** gyda chasgliadau ynghylch unrhyw angen i **adolygu** neu **newid** cynllun. (Ac yn ôl i'r cam cyntaf uchod – cylchol – gweler y pwynt bwled cyntaf).



## Rheoli'r Broses: y Cytundeb Cyflawni

2.5.2 Mae'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys yr amserlen a chynllun cyfranogiad y gymuned, yn ymrwymiad i gynllun a pholisi ar gyfer cynnwys y gymuned mewn ffordd ragweithiol yn y gwaith o baratoi'r cynllun; rhaid iddo gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad ffurfiol yr awdurdod cynllunio lleol a'i gytuno gyda Llywodraeth Cymru, ei gyhoeddi a'i roi ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd. Dylid adolygu'r Cytundeb Cyflawni'n rheolaidd. Dim ond mewn sefyllfa eithriadol (lle mae ffactorau y tu hwnt i reolaeth awdurdod cynllunio lleol yn atal y targedau gwreiddiol rhag cael eu cyrraedd) y dylid ystyried amserlen ddiwygiedig wrth baratoi cynllun. Efallai y bydd angen adolygu Cynllun Cyfranogiad y Gymuned pan fydd newidiadau sylweddol wedi digwydd. Ar gyfer paratoi Diwygiad i'r CDLL, bydd angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig.


2.5.3 Nid yw amserlen safonol sydd wedi ei rhagnodi ar gyfer CDLLau yn briodol oherwydd y bydd amrywiadau sylweddol yn y cyd-destun y byddant yn cael eu paratoi ynddo ac yn natur y materion cynllunio yr ymdrinnir â hwy. Bydd awdurdodau cynllunio lleol sy'n newid CDLLau yn gyfarwydd â'r broses a byddant yn cynnal sylfaen gyfredol o dystiolaeth; dylent anelu at gwblhau cynllun newydd llawn mewn llai o gryn dipyn na 4 blynedd o'r penderfyniad i wneud hynny. Bydd yr amserlen ar gyfer adolygu CDLL yn dibynnu ar raddau'r newidiadau sydd eu hangen ond dylid ymdrin â'r rhain yn gyflym. Lle bo'r strategaeth ofodol yn dal yn addas, a'r newidiadau'n gyfyngedig, megis yn ymwneud â dyrannu safleoedd newydd, newid rhagolygon twf neu newidiadau polisi penodol, yna byddai'r broses adolygu fer yn briodol a gellid ei chwblhau mewn 12 mis.

## Y Sylfaen Dystiolaeth

2.5.4 Mae Adran 61 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lleol barhau i gadw golwg ar yr holl faterion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Dylai polisïau a chynigion a phenderfyniadau awdurdod cynllunio lleol fod wedi eu seilio ar ddealltwriaeth drwyadl o anghenion, cyfleoedd a chyfyngiadau'r ardal. Mae hyn yn ei gwneud yn angenrheidiol i awdurdodau gynnal a datblygu'n barhaus sylfaen o wybodaeth sy'n gyfoes, yn berthnasol ac yn gymesur ynglŷn â nodweddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ei ardal, fydd yn sail i baratoi, monitro ac adolygu'r CDLL, gan gynnwys:

- i. y prif nodweddion ffisegol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol;
- ii. y prif ddibenion y defnyddir tir ar eu cyfer;
- iii. maint, cyfansoddiad a dosbarthiad y boblogaeth;
- iv. cyfryngau cyfathrebu, y system gludiant a thrafnidiaeth; ac
- v. unrhyw ystyriaethau eraill y gellir disgwyl iddynt effeithio ar y materion hynny.

2.5.5 Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd gymryd effeithiau materion tebyg mewn ardaloedd cyfagos i ystyriaeth mewn ymgynghoriad gyda'r awdurdodau cynllunio lleol dan sylw. Dylent ddethol yn ofalus a chanolbwyntio ar y deunydd sydd ei angen ar gyfer paratoi a monitro'r cynllun



a gwneud penderfyniadau. Dylid sicrhau bod canlyniadau arolygon ac ymchwil ar gael ar gais i'r cyhoedd eu hastudio.

## Gweithio ar y cyd, ymgysylltu ac ymgynghori

2.5.6 Pan geir materion o natur neilltuol sy'n effeithio ar fwy nag un awdurdod cynllunio lleol bydd angen ymgynghori a chydweithio rhwng yr holl awdurdodau y bydd y materion yn debygol o effeithio arnynt. Bydd y strategaethau neu'r cytundebau trawsffiniol a lunnir o ganlyniad, yn enwedig pan fydd tystiolaeth ar eu cyfer a phan fyddant wedi eu hardystio'n ffurfiol, yn gyfraniad pwysig i'r CDLl a'r broses archwilio. Gall datganiadau o dir cyffredin a seiliau tystiolaeth ar y cyd fod o gymorth i ddangos cydweithrediad cadarnhaol. Anogir awdurdodau cynllunio lleol i ystyried manteision cynnal rhai agweddau ar baratoi cynllun ochr yn ochr neu drwy drefniadau gweithio ar y cyd.

2.5.7 Dylai'r awdurdod cynllunio lleol geisio sicrhau graddau o gonsensws dros ddatblygiad a defnydd tir yn y dyfodol yn ei ardal drwy gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, cynghorau cymuned, cyrff gwirfoddol, y gymuned fusnes a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill wrth baratoi'r CDLl fel y nodir yng Nghynllun Cyfranogiad y Gymuned. Mae yna ofynion statudol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod cyfnod paratoi'r CDLl; ceir arweiniad pellach yn Llawlyfr y CDLlau.


## Cynlluniau ar y cyd a Chydweithredu

2.5.8 Gall dau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol gyuno i baratoi neu ddiwygio CDLl ar y cyd ar gyfer eu hardaloedd (adran 72 o Ddeddf 2004 a Rheoliad CDLlau 36). Anogir hyn pryd y byddai yn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o ymdrin â materion trawsffiniol ac yn gwella cadernid y cynllun.

2.5.9 Rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol dan sylw gydymffurfio â'r gweithdrefnau paratoi ar gyfer y Cyd-gynllun Datblygu Lleol fel pe baent yn paratoi CDLlau ar wahân. Pan fydd dau neu fwy o awdurdodau cynllunio lleol yn cytuno i baratoi neu ddiwygio CDLl ar y cyd, rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol dan sylw gydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi y CDLl neu ddiwygiad ar y cyd fel bo angen, fel pe baent yn paratoi CDLl neu ddiwygiad ar wahân. Rhaid i'r holl awdurdodau cynllunio lleol baratoi / diwygio'r cynllun; ni ellir ei wneud yn unigol gan un awdurdod ar ei ben ei hun.

## Cyflwyno, Archwiliad Annibynnol a Mabwysiadu

2.5.10 Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gyflwyno'r CDLl wedi'i adneuo ynghyd â dogfennau ategol, i'r Arolygiaeth Gynllunio (PINS) i'w harchwilio'n annibynnol ar ran Gweinidogion Cymru (mae canllawiau archwilio PINS ar gael ar wefan PINS<sup>16</sup>). Ni ddylai awdurdod cynllunio lleol ond gosod ar adnau ac wedyn gyflwyno i'w archwilio CDLl y mae ef yn ei ystyried yn 'gadarn'. Ambell waith, os daw gwybodaeth newydd megis polisi cenedlaethol newydd, ar gael yn ystod camau olaf y broses o baratoi'r cynllun ac os ystyrir bod rhai newidiadau cyfyngedig yn angenrheidiol i wneud y cynllun yn gadarn, gall yr awdurdod gyhoeddi yn eithriadol, fel adendwm i'r cynllun a adnewydd, atodlen o **newidiadau penodol**. Cyn belled â bod yr adendwm wedi bod yn



destun ymgynghoriad (yn yr un ffordd â'r cynllun a adnewwyd) a'r arfarniad cynaliadwyedd wedi ei ddiwygio (os oes angen) caiff ei dderbyn gan yr Arolygydd Cynllunio fel rhan o'r CDLI a gyflwynwyd. Y CDLI a gyflwynwyd, fel y'i diwygiwyd gan y newidiadau penodol arfaethedig, fydd y man cychwyn ar gyfer ystyriaethau o gadernid.

2.5.11 Bydd yr archwiliad yn asesu a yw **gofynion paratoi** wedi cael eu dilyn a bydd yn penderfynu a yw'r cynllun yn 'gadarn', sef ei fod yn cwrdd â'r **3 phrawf cadernid**<sup>17</sup>, a nodir yma, mewn polisi cynllunio cenedlaethol sef:

1. **A yw'r cynllun yn ffio?** (h.y. a yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?);
2. **A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?);
3. **A fydd y cynllun yn cyflawni?** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?).

2.5.12 Mae argymhellion yr Arolygydd yn derfynol. Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun o fewn 8 wythnos o dderbyn adroddiad yr Arolygydd, gan gynnwys argymhellion yr Arolygydd yn llawn.


2.5.13 Daw CDLI i rym ar y dyddiad y caiff ei fabwysiadu neu, os yw'r cynllun wedi cael ei alw i mewn, y dyddiad y caiff ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Tynnu'r Cynllun yn Ôl

2.5.14 Caiff awdurdod cynllunio lleol dynnu CDLI sydd ar y gweill yn ôl ar unrhyw adeg, cyn iddo gael ei gyflwyno i'w archwilio (adran 66 o Ddeddf 2004). Unwaith y bydd y cynllun wedi ei gyflwyno, ni ellir ei dynnu'n ôl, oni bai bod yr Arolygydd sy'n cynnal yr archwiliad yn argymhell ei fod yn cael ei dynnu'n ôl (a Llywodraeth Cymru heb ddyfarnu yn erbyn yr argymhelliad hwnnw) neu fod Llywodraeth Cymru'n gorchymyn bod rhaid tynnu'r cynllun yn ôl. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl tynnu CDLI yn ôl, rhaid i'r awdurdod roi hysbysrwydd i'r ffaith a thynnu'r holl ddogfennau o sylw'r cyhoedd (Rheoliad CDLIau 26). Dylai'r awdurdod ystyried pa elfennau o'r dystiolaeth sy'n ddilys wrth baratoi cynllun pellach, ac felly osgoi ail-wneud y gwaith o gasglu tystiolaeth a lleihau cost ychwanegol.

## Monitro'r Cynllun

2.5.15 Mae gofyn i awdurdod cynllunio lleol gyflwyno **adroddiad monitro blynyddol** i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn sy'n amlinellu perfformiad y CDLI a fabwysiadwyd, a'r modd y cafodd ei weithredu, yn ystod y cyfnod blaenorol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y cyfnod blaenorol o 1 Ebrill hyd 31 Mawrth, a chyhoeddi'r Adroddiad. Dylai'r adroddiad monitro blynyddol roi gwybodaeth am y graddau y mae'r amcanion a osodwyd yn y CDLI yn cael eu cyflawni, nodi unrhyw bolisi nad yw'n cael ei weithredu a rhoi'r rhesymau, ynghyd ag unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y polisi'n cael





ei weithredu ac unrhyw fwrriad i adolygu neu amnewid y CDLL (adran 76 o Ddeddf 2004; Rheoliad CDLLau 37). Dylai nodi unrhyw newidiadau i rannau allweddol o'r cynllun y byddai angen eu hystyried wrth adolygu'r cynllun ac wrth wneud diwygiad posibl iddo.

## Adolygu'r Cynllun a'r Adroddiad Adolygu

2.5.16 Bydd amseriad ac amllder **adolygu'r cynllun**, a'r angen o ganlyniad am **Adroddiad Adolygu**, yn dibynnu ar ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blyneddol ac ar amgylchiadau lleol. Er mwyn sicrhau bod y CDLL yn cael ei gadw'n gyfredol a chyfnod y cynllun yn parhau'n strategol, dylai awdurdod gychwyn adolygiad llawn mwy trwyadl o'i Gynllun Datblygu Lleol unwaith bob 4 blynedd o leiaf ar ôl iddo gael ei fabwysiadu (h.y. mabwysiadu cychwynnol a mabwysiadu ar ôl adolygiad o dan adran 69 o Ddeddf 2004), ac yn gynharach o bosibl os awgrymir hynny gan ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blyneddol (Rheoliad CDLLau 41).

2.5.17 Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo'r Adroddiad Adolygu yn ffurfiol a rhaid i hynny ddigwydd cyn gwneud unrhyw ddiwygiad i'r CDLL (Rheoliad CDLLau 41). Bydd yr Adroddiad yn dangos yn glir beth sydd wedi cael ei ystyried a beth sydd angen ei newid a pham; a, phan fydd yn briodol, bydd rhaid dod i gasgliad ynghylch y weithdrefn ddiwygio sydd i gael ei dilyn. Bydd cyfleoedd ymgysylltu cynnar yn y cam cyn adneuo yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw anghytundeb ynghylch cwrpas diwygiad arfaethedig gael ei fynegi a'i ystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol.


2.5.18 Er mwyn penderfynu a oes angen diwygio'r CDLL, neu baratoi CDLL newydd, dylai adolygiad o'r cynllun asesu i ba raddau y bu newid arwyddocaol neu sylfaenol yn y canlynol:

- amodau allanol/amodau economaidd ac ariannol/cynlluniau cyfagos
- polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol
- y cyd-destun lleol e.e. cau safle cyflogaeth mawr
- cynigion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat mawr
- gweithredu a chyflawni polisiâu
- hyfywedd a dichonoldeb cyflawni polisi neu gynnig
- rhagolygon neu ragdybiaethau
- effaith gronns amrywiaeth o faterion

Ystyriaeth bwysig arall fydd y dyddiad y daw'r cynllun gwreiddiol i ben, a'r amser sydd ei angen i baratoi a mabwysiadu cynllun diwygiedig neu gynllun newydd er mwyn gwneud yn siŵr bod y cynllun yn edrych yn ddigon pell i'r dyfodol i sicrhau y bydd modd gweithredu ar sail cynllun, ei fod yn rhoi arweiniad ac yn dylanwadu ar fuddsoddiad a newid yn y dyfodol, ac yn dangos bod cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gael ar tai.

## Adolygu a Newid y Cynllun

2.5.19 Gellir diwygio'r CDLL yn gyfan gwbl neu'n rhannol er mwyn ymateb yn hyblyg i



amgylchiadau sy'n newid; dylai diwygiadau fod yn gymesur â'r materion dan sylw a dylent gynnwys ailystyried yr arfarniad cynaliadwyedd a chadernid y cynllun.

2.5.20 Pan fydd Adroddiad Adolygu'n dangos bod y cynllun presennol wedi dyddio'n sylweddol a/neu bod angen newidiadau sylfaenol, bydd cyfiawnhad dros **newid** y cynllun (h.y. cael cynllun cyfan gwbl newydd). Mae'r broses sydd i gael ei dilyn yr un fath ag ar gyfer paratoi cynllun newydd.


2.5.21 Fel arall, gallai Adroddiad Adolygu ddangos nad oes angen i'r cynllun gael ei ddisodli'n llwyr ond bod angen ei **ddiwygio** i ryw raddau. Gallai hyn fod pan fo angen estyn y cynllun ymlaen yn rhannol, bod rhagolygon a rhagdybiaethau wedi newid, bod angen i bolisi gael ei fireinio/bod angen atodiad neu fod angen safleoedd newydd, yn unol â'r strategaeth wreiddiol. Mewn amgylchiadau lle nad yw'r materion dan sylw yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau cynnal y weithdrefn ddiwygio lawn, gall awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r weithdrefn ddiwygio fer.

2.5.22 Wrth benderfynu gwneud diwygiadau i gynllun, dylai awdurdod ystyried i ba graddau mae perthynas rhwng y meysydd polisi gwahanol yn y cynllun gan y gall gwneud rhai newidiadau dethol gael canlyniadau arwyddocaol o ran cydlynid ac effeithiolrwydd y cynllun yn ei gyfarwydd a gallai effeithio ar gadernid y strategaeth wreiddiol a'r cynllun yn gyffredinol. Mae angen i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried yn ofalus, gan gofio'r dystiolaeth, pa weithdrefn ddiwygio sydd i gael ei dilyn, gan y gallai'r penderfyniad arwain at oblygiadau sylweddol o ran gweithdrefn yn ystod archwiliad cyhoeddus ac effeithio ar 'gadernid' y cynllun.

2.5.23 Er mwyn paratoi i ddiwygio CDLI, bydd angen adolygu'r Cytundeb Cyflawni; dylai'r Cynllun Cyfranogiad y Gymuned presennol egluro'r bwriadau ar gyfer cyfranogiad y gymuned wrth adolygu CDLI, ond efallai y bydd angen adnewyddu rhannau ohono; bydd angen Amserlen newydd ar gyfer y diwygo. Rhaid cytuno ar y Cytundeb Cyflawni diwygiedig gyda Llywodraeth Cymru a'i gyhoeddi.

2.5.24 Dylai'r dogfennau ymgynghori ar gyfer diwygio'r cynllun ddangos yn glir beth yw'r newidiadau arfaethedig i'r polisiau a'r cynigion presennol a'r dolennau cyswllt â'r rhannau o'r cynllun sydd i gael eu cadw. Dylai unrhyw sylwadau ganolbwyntio ar y newidiadau neu eu perthynas â'r CDLI a'r Adroddiad Adolygu. Nid oes disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ystyried sylwadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r newidiadau oni ellir ystyried yn rhesymol eu bod yn berthnasol i gadernid y cynllun diwygiedig.

2.5.25 Caiff y diwygiadau arfaethedig eu harchwilio o fewn cyd-destun y cynllun a fabwysiadwyd; bydd yr Arolygydd yn ystyried casgliadau'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch cadernid y cynllun (fel y'u nodwyd yn yr Adroddiad Adolygu) yn ogystal â phriodoldeb y newidiadau yng ngoleuni'r sylfaen dystiolaeth. Bydd gan yr Arolygydd y disgrisiwn i benderfynu a ddylid ystyried bod sylwadau ynghylch polisi a gadwyd neu bolisi cysylltiedig yn berthnasol, a'u hystyried fel gwrthwynebiad y mae angen iddo gael ei glywed wrth archwilio.



## Argaeledd Dogfennau

2.5.26 Mae'n ofynnol i awdurdod sicrhau bod y Cytundeb Cyflawni (h.y. yr amserlen a Chynllun Cyfranogiad y Gymuned) a'r CDLI a fabwysiadwyd yn cael eu cyhoeddi (gan gynnwys ar ei wefan) a'u bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio (Rheoliadau CDLLau 10 a 39). Rhaid iddo hefyd hysbysebu argaeledd y cynllun a'r amrywiol ddogfennau, adroddiadau a datganiadau eraill a gynhyrchwyd yn ystod y weithdrefn oedd yn arwain at ei fabwysiadu. Rhaid i gopïau o'r dogfennau eraill hyn barhau i fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio tan chwe wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o fabwysiadu neu gymeradwyo'r cynllun (y cyfnod ar gyfer her gyfreithiol) (Rheoliad CDLLau 38). Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd neu hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cynllun fod ar gael hefyd i'w archwilio.

2.5.27 Dylai dogfennau'r cynllun, gan gynnwys mapiau'r cynigion, fod ar gael ar bob cam mewn ffurf electronig, ond mae angen copïau papur hefyd i'w harchwilio a'u prynu am bris rhesymol mewn lleoliadau a enwyd, sy'n hygyrch i'r cyhoedd.


## 2.6 Swyddogaeth Llywodraeth Cymru ym Mhroses y Cynllun

2.6.1 Swyddogaeth Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun paratoi'r CDLLau yw un o oruchwyliaeth weithredol dros y system gyfan. Bydd yn annog ac, os bydd angen, yn ceisio sicrhau bod CDLLau cyfoes, cadarn yn cael eu mabwysiadu. Er mwyn osgoi'r angen am ymyriadau mwy ffurfiol yn ddiweddarach ym mhroses y cynllun, dylai awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mewn deialog barhaus o'r cychwyn.

2.6.2 Os bydd CDLI sydd ar y gweill yn ymddangos fel pe bai'n mynd yn groes i bolisi cenedlaethol ac os yw'n ymddangos nad yw wedi ei gyfiawnhau gan dystiolaeth gadarn am amgylchiadau lleol, bydd Llywodraeth Cymru'n tynnu hyn i sylw'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y camau ymgynghori statudol. Caiff y sylwadau hyn eu hystyried gan yr arolygydd wrth archwilio.

2.6.3 Mae gan Lywodraeth Cymru **bwerau cyfarwyddo** eang mewn perthynas â'r CDLLau gan gynnwys y gallu i:

- i. gosod telerau dogfennau'r Cytundeb Cyflawni pan na ellir dod i gytundeb – adran 63(5)
- ii. rhoi cyfarwyddyd i awdurdod addasu ei gynllun mewn ffordd benodol cyn iddo gael ei fabwysiadu – adran 65(1)
- iii. galw cynllun i mewn i'w benderfynu gan Lywodraeth Cymru – adran 65(4)
- iv. rhoi cyfarwyddyd i dynnu CDLI yn ôl cyn ei fabwysiadu – adran 66(2)(b)
- v. rhoi cyfarwyddyd i awdurdod cynllunio lleol beidio â mabwysiadu'r cynllun pan fo argymhellion yr arolygydd archwilio yn cael eu hystyried yn groes i bolisi cenedlaethol – adran 67(4)
- vi. rhoi cyfarwyddyd i'r cynllun gael ei ddiwygio (h.y. ei newid neu gael un yn ei le) – adran 70(2)
- vii. rhoi cyfarwyddyd, pan fydd awdurdod yn tynnu'n ôl o gytundeb i baratoi CDLI ar y cyd, i ailgychwyn yr archwiliad annibynnol a bod camau a gymerir er mwyn archwilio'r cynllun ar y cyd i gael effaith mewn perthynas â chynllun unigol cyfatebol yr awdurdod hwnnw – adran 72(7).



2.6.4 Fodd bynnag, ni fydd Llywodraeth Cymru'n gyffredinol yn ystyried defnyddio'r pwerau cyfarwyddo hyn ond fel cam terfynol pan fydd deialog wedi methu a lle mae CDLI:

- yn codi materion o bwys cenedlaethol, neu
- yn medru cael effeithiau eang y tu hwnt i ardal yr awdurdod a greodd y cynllun.

2.6.5 Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd **pwerau diofyn** (adran 71 o Ddeddf 2004) pan fydd yn ystyried bod awdurdod yn methu neu'n peidio â gwneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol mewn perthynas â pharatoi, adolygu neu fabwysiadu'r CDLI.

2.6.6 Caiff Llywodraeth Cymru ddirymu CDLI ar gais yr awdurdod ar unrhyw adeg (adran 68 o Ddeddf 2004).


## 2.7 Her yn yr Uchel Lys (adran 113 o Ddeddf 2004)

2.7.1 Caiff unrhyw berson herio dilysrwydd CDLI neu unrhyw ddiwygiad iddo ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddwyd dan Ran 6 o Ddeddf 2004, neu fod methiant wedi bod i gydymffurfio â gofynion yn y Rhan honno o Ddeddf 2004 neu Reoliadau a wnaed o dan y rhan honno (sef Rheoliadau'r CDLIau). Mewn amgylchiadau o'r fath gellir gwneud cais i'r Uchel Lys i gael diddymu'r cynllun neu ran o'r cynllun. Rhaid gwneud ceisiadau o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad bod y cynllun wedi cael ei fabwysiadu.

## 2.8 Cynlluniau sydd ar y gweill neu gynlluniau sydd wedi dyddio

2.8.1 Bydd y pwys sydd i'w roi ar **CDLI sydd ar y gweill** (neu gynllun sy'n cael ei ddiwygio) wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn gyffredinol yn dibynnu ar y cam y mae wedi ei gyrraedd, ond nid yw'n cynyddu wrth i'r cynllun fynd rhagddo tuag at gael ei fabwysiadu. Wrth gynnal yr archwiliad, mae gofyn i'r Arolygydd a benodwyd ystyried cadernid y cynllun cyfan yng nghyd-destun polisi cenedlaethol a'r holl faterion eraill sy'n berthnasol iddo. O ganlyniad, gallai polisiâu yn y pen draw gael eu diwygio neu eu dileu o'r cynllun er nad ydynt efallai wedi bod yn destun sylwadau yn ystod y cam adneuo (neu gael eu cadw er eu bod wedi creu gwrthwynebiad sylweddol). Ni cheir sicrwydd ynghylch cynnwys y cynllun ond pan fydd yr Arolygydd yn traddodi ei adroddiad terfynol. Felly, wrth ystyried faint o bwys i'w osod ar bolisiâu penodol mewn CDLI sydd ar y gweill sy'n berthnasol i gynrig neilltuol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn ofalus y dystiolaeth waelodol a'r cefndir i'r polisiâu. Gall polisi cynllunio cenedlaethol hefyd fod yn ystyriaeth berthnasol yn yr amgylchiadau hyn (gweler adran 3.1.2).

2.8.2 At hynny, pan fo CDLI yn dal wrthi'n cael ei baratoi, efallai y bydd cwestiynau o **gynamseroldeb** yn codi. Ni fydd gwrthod caniatâd cynllunio ar sail cynamseroldeb yn cael ei gyfiawnhau fel arfer ac eithrio mewn achosion lle bydd cynrig datblygu yn mynd at galon cynllun a phan fydd, yn unigol neu'n gronrus, mor arwyddocaol, fel y byddai rhoi caniatâd iddo yn gyfystyr â gwneud penderfyniadau ymlaen llaw ynghylch maint, lleoliad neu gyflwyniad graddol datblygiad newydd, sef penderfyniadau a ddylai yn briodol gael eu gwneud yng nghyd-destun y CDLI. Pan geir polisi o gyflwyno datblygiad fesul cam yn y cynllun, sy'n allweddol i strwythur y cynllun, efallai y bydd amgylchiadau pan fydd rhaid gwrthod rhoi caniatâd ar sail cynamseroldeb



os yw'r polisi i gael effaith. Bydd y cam y mae cynllun wedi ei gyrraedd hefyd yn ffactor pwysig, ac anaml y cyfiawnheir gwrthod ar sail cynamseroldeb pan fydd cynllun yn y cam paratoi cyn adneuo, heb obaith buan o gyrraedd adneuo, oherwydd yr oedi hir y byddai hyn yn ei achosi o ran penderfynu defnydd y tir dan sylw yn y dyfodol.

2.8.3 Mae angen barnu'n ofalus i benderfynu a ddylid gwrthod caniatâd cynllunio ar sail cynamseroldeb a bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol ddangos yn glir sut y byddai caniatáu'r datblygiad dan sylw yn peryglu canlyniad proses y CDLI.


2.8.4 Mater i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad, yn y lle cyntaf, yw penderfynu, drwy fonitro ac adolygu'r cynllun datblygu, a yw polisiâu mewn CDLI a fabwysiadwyd wedi dyddio at ddibenion penderfynu ar gais cynllunio. Lle mae hyn yn wir, dylai awdurdodau cynllunio lleol roi llai o bwys ar y cynllun a throi at ystyriaethau perthnasol eraill megis polisi cynllunio cenedlaethol, gan gynnwys rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy (gweler adran 4.2).

## Malltod ac Osgoi Malltod

2.8.5 Unwaith y bydd awdurdod cynllunio lleol yn cyhoeddi ar adnau y CDLI y mae'n cynnig ei fabwysiadu, yn unol â Rheoliadau CDLlau 17 neu 26B, bydd yn sbarduno darpariaethau malltod cynllunio, yn yr un modd ag y bydd gosod cynigion i adolygu CDLI a fabwysiadwyd neu osod un yn ei le.

2.8.6 Er y dylai awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn cael ei gwneud ar gyfer datblygiad a seilwaith wrth baratoi CDLI, mae'n bwysig i gynigion fod yn realistig ac yn debygol o gael eu gweithredu yn ystod cyfnod y cynllun i gynorthwyo i sicrhau cyn lleied â phosib o falltod.

2.8.7 Pan fydd amgylchiadau'n newid fel bod cynigion mewn CDLI a fabwysiadwyd nad ydynt yn debygol o gael eu gweithredu mwyach, dylai'r awdurdod cynllunio lleol gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod hyn yn glir i'r rheiny sy'n defnyddio neu'n cyfeirio at y cynllun. Mae hyn yn neilltuol o bwysig mewn achosion megis cynigion ar gyfer datblygiad mawr neu brosiectau seilwaith (e.e. cynigion ffyrdd) lle mae ansicrwydd ynghylch tebygolrwydd y bydd prosiectau yn mynd ymlaen yn gallu arwain at falltod yn nhyb perchnogion eiddo yn y cylch. Yr unig ffordd o dynnu cynigion o'r fath o'r cynllun yw drwy adolygiad ffurfiol ac mae'r adroddiad monitro blynyddol yn offeryn defnyddiol i dynnu sylw at newidiadau angenrheidiol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gellir gwneud penderfyniadau i beidio â fwrw ymlaen gyda chynigion yn unol ag amserlen nad yw'n cyd-fynd ag amserlenni ar gyfer monitro blynyddol neu ddiwygio cynllun. Felly, pan fydd penderfyniad pendant wedi ei wneud i beidio â mynd ymlaen â chynnig (e.e. drwy benderfyniad ffurfiol), dylai'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod copïau o'r penderfyniad (neu ddogfen briodol arall) ar gael i'r cyhoedd eu darllen. Efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol hefyd yn dymuno rhoi gwybodaeth yn uniongyrchol i'r rheiny yr effeithiwyd ar eu tir neu eu heiddo, ac eraill, fel y barnant yn briodol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod yn ymwybodol nad yw dilyn y dull hwn yn gyfystyr ag addasu'r cynllun yn ffurfiol. Yn nhermau adran 38(6) o Ddeddf 2004, ni fydd effaith ar y cynigion yn y cynllun. Bydd cofnod gan yr awdurdod cynllunio





lleol o'r penderfyniad na fwriedir bwrw ymlaen â'r cynigion, fodd bynnag, yn ystyriaeth bwysig o ran unrhyw gais cynllunio neu apêl ddilynol. Dylai'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod y penderfyniad i beidio â symud ymlaen gyda'r cynnig wedi ei gynnwys yn y casgliad nesaf o addasiadau i'r cynllun neu'r cynllun a ddaw yn ei le wedyn.

## 2.9 Datganiadau Polisi Cenedlaethol


2.9.1 Fel cymorth i baratoi CDLI, mae penodau o Bolisi Cynllunio Cymru yn cynnwys tablau cryno ac yn y rhain mae datganiadau am bolisi cynllunio cenedlaethol wedi eu categorio fel a ganlyn:

- a oes angen iddynt lywio strategaeth leoliadol, gyda neu heb gefnogaeth polisi; neu
- a oes angen eu hadlewyrchu mewn polisi lleol sy'n seiliedig ar bwnc<sup>18</sup>; neu
- a ydynt yn bolisiau rheoli datblygu cenedlaethol nad oes angen eu hailadrodd fel polisi lleol mewn CDLlau.

2.9.2 Gall datganiadau polisi ar rai pynciau syrthio i fwy nag un o'r categorïau hyn, fel y dangosir yn y penodau sy'n dilyn. Er enghraifft, mae lleoli gwasanaethau manwerthu a gwasanaethau eraill mewn canolfannau sy'n bodoli eisoes yn bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ond efallai fod angen mynegiant gofodol ohono yn lleol. Ambell dro, bydd categori penodol polisi yn dibynnu ar natur y cynnig. Er enghraifft, gellid hybu datblygiadau clwstwr drwy gynnig ar gyfer safle penodol y mae angen ei fynegi'n lleol a pholisi i'w gefnogi, neu drwy ddull mwy cyffredinol mewn polisi lleol sy'n ymwneud â phwnc penodol.

2.9.3 Nid yw o reidrwydd yn wir y bydd angen polisi pwrpasol ar gyfer pob pwnc a restrir. Er enghraifft, dylai unrhyw rai o'r materion lleoliadol gyfrannu at strategaeth gyffredinol y CDLI a'i gynigion ar gyfer safleoedd penodol. Gellir ymdrin ag arweiniad rheoli datblygu yn briodol mewn rhai achosion mewn ffordd gyffredinol yn hytrach nag mewn polisiau ar wahân ar bynciau penodol. At hynny, mae rhai themâu, megis datblygiadau defnydd cymysg a dwyster uchel, yn drawsbynciol ac yn ymddangos yn nifer o benodau Polisi Cynllunio Cymru, a dylai fod lle i gyfuno polisiau ar faterion o'r fath mewn CDLI. Ni ddylai'r CDLI geisio cael polisi ar gyfer pob math o ddatblygiad. Bydd hynny'n arwain at ddyblygu meini prawf ac anhyblygrwydd. Beth bynnag, ni fydd modd rhagweld pob math posibl o ddatblygiad ac felly, y nod ddylai fod casgliad bychan o bolisiau rheoli datblygu fydd yn gosod fframwaith ar gyfer arwain penderfyniadau.

2.9.4 Dylid ystyried y polisiau rheoli datblygu cenedlaethol a nodir yma, lle bo'n briodol, wrth benderfynu ar geisiadau unigol; yn enwedig pan fo polisi cynllunio cenedlaethol yn darparu polisi mwy diweddar ar rai pynciau (gweler adrannau 2.8 a 4.2).



## Ffigur 2.1 Cynlluniau Datblygu

### Arweiniad ynglŷn â chymhwyso datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol mewn CDLlau

#### Ystyriaethau lleoliadol

Ceir y datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol a ddylai arwain polisi lleoliadol mewn CDLlau yn y paragraff canlynol:

| Paragraff | Mater Polisi   |
|-----------|--|
| 2.3.7     | Darparu tir ar gyfer ysgolion, addysg bellach ac uwch, addoldai, cyfleusterau adloniant a chyfleusterau cymunedol eraill |

#### Polisiau rheoli datblygu cenedlaethol


Mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys datganiadau ynghylch polisi rheoli datblygu cenedlaethol na ddylai fod angen eu hailadrodd fel polisi lleol mewn CDLlau:

| Paragraff   | Mater Polisi  |
|-------------|---|
| 2.1.2       | Statws y cynllun datblygu o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio |
| 2.8.1       | Y pwys sydd i'w roi ar gynlluniau datblygu sydd ar y gweill       |
| 2.8.2-2.8.4 | Cynamseroldeb   |

Gellir crybwyll testunau perthnasol i'r ardal leol drwy groesgyfeirio at Bolisi Cynllunio Cymru.

## Cyfeiriadau

- <sup>1</sup> Cafodd system y Cynlluniau Datblygu Lleol, a sefydlwyd yn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (**'Deddf 2004'**) ([www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/part/6](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/part/6)) ei rhoi ar waith yn llawn yn 2005. Yn ychwanegol at Ddeddf 2004, mae'r gweithdrefnau ar gyfer paratoi CDLl wedi eu disgrifio yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 – O.S..2005/2839(W.203) fel y'i diwygiwyd (**'Rheoliadau CDLl'**) ([www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made)). Mae 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol', Llywodraeth Cymru, 2015 (**'Y Llawlyfr CDLlau'**) ([www.wales.gov.uk/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/CDLmanual/?skip=1&lang=cy](http://www.wales.gov.uk/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/CDLmanual/?skip=1&lang=cy)) yn rhoi arweiniad pellach.
- <sup>2</sup> Rheoliadau Aseiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 – O.S. 2004/1656(Cy.170) (**'Rheoliadau'r AAS (Aseiad Amgylcheddol Statudol)'**) – Rheoliadau 5(2) a 5(4)). ([www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/contents/made/welsh](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/contents/made/welsh))
- <sup>3</sup> Adran 62(6) o Ddeddf 2004



- 4 Rhan 6 Pennod 8 o Reoliadau Diogelu Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 – O.S..2010/490 (**'Y Rheoliadau Cynefinoedd'**) ([www.legislation.gov.uk/uksi/2010/490/contents/made](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/490/contents/made))
- 5 Mewn parciau cenedlaethol, dylai Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol asio'n rhwydd â'r Cynllun(iau) Integredig Sengl perthnasol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, a dylai fod yn sail i'r CDL
- 6 Adran 62 o Ddeddf 2004 a Rheoliadau CDLlau 11 a 12
- 7 Dwy ffynhonnell ddefnyddiol o arweiniad ynghylch hyfywedd, sydd ar gael ar wefan y Gwasanaeth Cyngor Cynllunio (PAS) ([www.pas.gov.uk/viability](http://www.pas.gov.uk/viability)) yw Adroddiad Harman: "Viability Testing Local Plans: Advice for planning practitioners" 2012, a Financial viability in planning guidance (RICS, Hydref 2012)
- 8 Math o bolisi yw cynnig ar gyfer safle penodol
- 9 Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 15, 'Datblygu a Pherygl o Lifogydd', Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004 [www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?lang=cy](http://www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?lang=cy)
- 10 [www.eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1437399738864&uri=CELEX:32001L0042](http://www.eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1437399738864&uri=CELEX:32001L0042)
- 11 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 – O.S.1999/293 fel y'u diwygiwyd
- 12 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg – [www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?skip=1&lang=cy)
- 13 Gweler atodiad 6 Nodyn Cyngor Technegol 5 'Cadwraeth Natur a Chynllunio', Llywodraeth Cymru, 2009 [www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan5/?lang=cy](http://www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan5/?lang=cy)
- 14 Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd 1992/43/EEC ar Ddiogelu Cynefinoedd Naturiol a Dail a Blodau Gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd), fel y'i diwygiwyd [www.eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX%3A31992L0043%3AEN%3AHTML](http://www.eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX%3A31992L0043%3AEN%3AHTML)
- 15 Darperir darpariaethau trosiannol ac arbed yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 – O.S.2015/1598 (W.197); mae arweiniad yn y Llawlyfr CDLlau
- 16 Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol – Canllaw Gweithdrefnol, Yr Arolygiaeth Gynllunio, Awst 2015 [www.gov.wales/topics/planning/appeals/examination-process/?skip=1&lang=cy](http://www.gov.wales/topics/planning/appeals/examination-process/?skip=1&lang=cy)
- 17 Mae cwestiynau allweddol yn ymwneud â phroffion cadernid ym mhennod 8 o'r Llawlyfr CDLlau
- 18 Mae 'seiliedig ar bwnc' yn ymwneud â strwythur Polisi Cynllunio Cymru ac nid yw'n ymwneud â sut y dylai CDL gael ei strwythuro, sy'n fater i'w benderfynu gan bob awdurdod cynllunio lleol

